




Y PWYLLGOR A'R SWYDDOGION

Cadeirydd: Robert Dutt

Ymgynghorydd: Ann Lewis

Trysorydd: Eyron Thomas e.thomas119@btinternet.com

Golygydd: Ben Jones benamary2000@yahoo.co.uk 02920 862428 07891916046

Ysgrifennydd: Marian Fairclough faircloughme@aol.com 02920 885151

Ysgrifennydd Cofnodion: Ann Lewis

Golygydd Lluniau: Mary Jones

Cynorthwy-ydd: Jan Penney **Digwyddiadur:** Lowri Jones Lowri@mentercaerffili.org

Ieuenctid: Morgan Roberts Swyddog Prosiect Llais, Menter Caerffili

Pwyllgor: Eirlys Thomas, Dafydd Islwyn, Tamsin Graves a Gareth W. Williams

Croesawir erthyglau gan unrhyw un ond iddynt gyrraedd desg y Golygydd cyn 20fed diwrnod y mis cyn cyhoeddi.

Cedwir yr hawl i gwtogi neu newid erthyglau neu luniau yn unol â gofynion golygyddol.

Argraffir gan Tower Print, Uned 12a, Ystâd Ddiwydiannol Tŷ Bedwas, Caerffili, CF83 8DW



*Ariennir yn
rhannol
gan
Lywodraeth
Cymru*

Beiblau 1988 a 2015



Roeddwn i'n dyst i gyfarfod a sgwrs ddiddorol iawn yn nhŷ fy nhad, y Parch. Ddr Dafydd G Davies, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, sy'n agosau at ei ben-blwydd yn 94. Roedd e'n sgwrsio gydag Arfon Jones, un arall o drigolion yr ardal, sydd wedi treulio yn agos at ugain mlynedd yn ymchwilio, cyfieithu ac aralleirio, cyn cyhoeddi ei beibl.net ychydig cyn y Nadolig llynedd. Olynydd teilwng i'r Esgob William Morgan!

Wrth i'r ddau gymwynaswr mawr hyn fwrw ati i rannu profiadau yn y gwaith, sylweddolais bron ar unwaith nad oedd modd recordio'r sgwrsio, bod John Roberts, Bwrw Golwg (BBC) ddim yno i'w chofnodi..

Yn y llun gellir gweld bod Arfon yn dal copi o beibl.net a fy nhad, copi o'r Beibl Cymraeg Newydd (BCN) 1988. Ond sylweddolais fy mod i raddau wedi rhoi'r Beibl anghywir iddo. Felly dyna wneud iawn wrth ei wahodd i ddal ei gopi personol o'r Testament Newydd a gyhoeddwyd yn 1975. Tybed a oes modd gweld llofnod fy nhad ar yr ochr chwith yna'r saith cyfieithydd arall ar y dde sef Owen E Evans, Isaac Thomas, Gwilym ap Robert, J I Daniel, D R Griffiths, S Ifor Enoch a John Llanelwy.

Dim ond dau sydd bellach ar dir y byw sef fy nhad a'r Parch. Dr Owen Evans, Ynys Môn. Mae fy nhad bellach bron yn ddall ond y dyddiau hyn caiff fodd i fyw wrth fy mod yn darllen ar lafar ysgrif y dydd iddo o'r llyfr gwerthfawr a hynod ddarllenadwy "Merêd: Dyn ar Dân". Dechreuodd y ddau ohonynt fel myfyrwyr diwinyddol ym Mhrifysgol Bangor ym mis Medi 1941. Ond stori arall yw honno...

Gwilym Dafydd, Caerdydd, 4 Mai, 2016

Doctor Elin



Er i bawb ystyried bod “Dr Elin” fel y’i gelwir wedi’i naddu allan o graig Ystrad Mynach, mae’n debyg mai yng Nghaerdydd y cafodd ei geni. Yna, yn ei geiriau ei hunan, “a des i adre i Ystrad Mynach yn rhyw chwe wythnos oed”.

Un o Faesteg oedd ei thad a theulu ei mam yn hanu o Rymni. Cofir am ei thad, Gwyn Phillips, yn swyddog undeb y glowyr ac a fu’n gynghorydd yn enw’r Blaid Lafur cyn mynd ymlaen i fod yn ymgeisydd yn lliwiau Plaid Cymru. A bu ei mam, hefyd, yn flaengar yn y gymuned a hithau’n Ustus Heddwch uchel ei pharch. Magwyd Elin yng nghanol pentref Ystrad Mynach yn Heol Bedlwyn, daflriad carreg o ysgol y pentref yn y naill gyfeiriad ac Ysgol Lewis i Ferched yn y cyfeiriad arall. Ond yn agosach na’r naill na’r llall, am fwy nag un rheswm, oedd Siloh, capel y

Methodistiaid, ochr draw i’r ffordd yn Oakfield Street.

Dilynodd ôl traed ei chyndadau - a’i chyndeidiau - wrth fynychu un o Ysgolion Lewis, ganol y cwm. Bu ei thad-cu, tad ei mam yn Ysgol Lewis, Pengam yn ystod yr 1880au a bu ei mam a brodyr ei mam yn brif swyddogion yn yr ysgolion hynny. Tair cenhedlaeth felly yn mynd yno o’i blaen

Ond er y cysylltiad teuluol, ni fu’r Elin ifanc yn hapus iawn yn Ysgol Lewis i Ferched. A dweud y gwir, nid diolch i’w hysgol ramadeg y datblygodd yn wladgarwr mor frwd oherwydd un rheswm dros ei anhapusrwydd oedd i’r ysgol ei hamddifadu o’r cyfle i astudio’r Gymraeg. Dywedwyd wrthi’n ddigyfaddawd, “*You’re a bright girl, Helen (sic), and you’ll be going to university. Latin will be far more useful to you than Welsh.*” Dyna feddylfryd 1956!

Pan oedd yn weddol saff o gael ei “rhoi mewn am Rydychen”, mynnodd wneud Lefel “O” Cymraeg yn ei blwyddyn gyntaf yn y 6ed. Ei chof o ymateb yr ysgol oedd: “*If you have the time to do that, you should be able to do Latin “A” Level as well*”. Ond nid oedd yr athrawes Ladin (un o ffrindiau ei mam) am iddi hi barhau gyda’r cwrs ar ôl y flwyddyn gyntaf. A dyw hi fawr o syndod, felly, bod yn gas ganddi Ladin erbyn hyn!

Gwnaeth Hanes, Ffrangeg a Saesneg ar gyfer Lefel “A”, a Chymraeg Lefel “O” yn y drydedd flwyddyn yn y 6ed, pan arhosodd yn yr ysgol er mwyn gwneud arholiadau Rhydychen. Anodd credu, hefyd, iddi orfod gwneud Cymraeg fel iaith estron, a hithau wedi’i magu ar aelwyd mor Gymraeg! Efallai y dylem fod yn ddiolchgar i do cyfan o athrawon a drodd allan genedlaetholwyr brwd drwy eu hymgais i’n troi ni yn erbyn ein hiaith!

Yn ôl ei thiwtor yn y coleg, un o’r rhesymau iddyn nhw ei galw am gyfweliad oedd yr adroddiad gwael a gafodd gan yr ysgol - “not suitable for Oxford” oedd byrdwn hwnnw, mae’n debyg. Ond roedd staff y coleg eisiau gweld pa fath o ferch oedd yn cael adroddiad ysgol mor wael â chanlyniadau arholiad mor dda!

Yn fwy diweddar daeth i amlygrwydd pan dderbyniodd wahoddiad gan yr Ysgrifennydd dros Addysg yn y Senedd i arwain gweithgor i edrych i mewn i addysgu Hanes yng Nghymru. A phwy gwell i ymgymryd â’r gwaith? Ac mae bellach wedi dychwelyd i’w milltir sgwâr yn Ystrad Mynach gan gyfrannu’n helaeth i fywyd crefyddol a diwylliannol yr ardal.

Dr Elin Jones yw Llywydd yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Fenni eleni. I gydnabod yr anrhydedd deilwng hon ailgyhoeddwn y portread hwn ohoni

Llongyfarchiadau



Bardd y Gadair yn Eisteddfod Môn, Paradwys a'r Fro ar yr 21ain o Fai eleni oedd y Doctor Llion Pryderi Roberts, Nelson.

Enillodd ei ail gadair yn Eisteddfod Môn am gasgliad o gerddi caeth neu rydd heb fod dros gant a hanner o linellau ar y testun "Paradwys". Un o'r beirniaid oedd Derec Llwyd Morgan a dywedodd iddo gael blas mawr ar ddarllen "cynnyrch rhyfeddol Tipiau", ffugenw Llion. Yn ôl y beirniad arall, Ifor ap Glyn, Llion oedd bardd mwyaf amryddawn y gystadleuaeth.

Dyma un o gerddi'r casgliad:

Trip

(gwyltio ffilm ddi-sain o'r 1950au
sydd o bosibl yn cynnwys rhai
aelodau o'm teulu)

Daw graen y degawdau
i brancio hyd y sgrîn,
a throi'r prynhawn hirfelyn
mor frau â deilen grin.

Fe syllaf i'r wynebau
sy'n wên o rîl i rîl,
ond deil y camera i grynu
fel tae'r holl atgo'n chwil.

Ac er bod brith adnabod
yn lledu'r wên o hyd,
ni all holl ddawn technoleg
roi llais i'r chwerthin mud.

Mae Llion yn briod â Lisa, merch Nia a'r diweddar Rod Barrar. Mae'n ddarlithydd yn y Gymraeg ac yn Gyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd.. Ymhlith ei ddiddordebau ymchwil ac addysgu y mae Llenyddiaeth yr ugeinfed ganrif a llenyddiaeth gyfoes (yn benodol barddoniaeth rydd a chynganeddol), rhyddiaith y bedwaredd ganrif ar bymtheg (yn benodol cofiannaeth), cofiant, hunangofiant a llên bywyd, ysgrifennu Creadigol a sgiliau ysgrifennu.

Dafydd Islwyn



Llongyfarchiadau hefyd i Thomas Morris, Caerffili. Bydd ein darllenwyr yn cofio i ni nodi bwrw i'r byd ei gyfrol "*We Don't Know What We Are Doing*" yn rhifyn mis Medi diwethaf. Mae'r gyfrol hon, bellach ar restr fer o dair cyfrol am Wobr Rhys Davies am Lyfr Ffuglen y Flwyddyn eleni.

Fe ganmolwyd y gyfrol ddiweddar yng ngholofn "*This Week in Paperback*" y Sunday Telegraph. Canmolwyd yr awdur am bortreadu cymeriadau'r ymylon, cymeriadau sy'n ymgodymu â gwacter eu bywyd. Lleolwyd y straeon yn nhre Caerffili.

Dafydd Islwyn

Eisteddfod Genedlaethol Y Fenni 1913

Mae'r Parchedig Ddoctor R. Alun Evans yn edrych ymlaen at y "Genedlaethol" eleni a'n hatgoffa pa mor Seisnigaidd Brydeinig y bu'r Wyl flynyddoedd yn ôl!

Ddechrau Awst 1913 oedd hi. A bod yn fanwl, Awst 4-8 1913. Dyna'r pryd diwethaf y cynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol yn Y Fenni, a hynny "o dan rasusol nawdd Ei Fawrhydi Y Brenin, Ei Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru." Yn ôl ei lythyr ar 24 o Fai 1912 at Ysgrifennydd Cyffredinol yr Eisteddfod honno mae'r *'Keeper of His Majesty's Privy Purse'* yn nodi "*The King would wish the Prince of Wales to become Vice-Patron of the aforesaid National Eisteddfod of Wales for 1913.*"

Fe fydd y Brifwyl eleni yn llawer llai brenhinol ac yn llawer mwy Cymreig. Ein brenhines ni ein hunain, y Dr Elin Jones, fydd Llywydd yr Wyl ac edrychwn ymlaen at ei hanerchiad o lwyfan yr eisteddfod. Yn 1913 The Right Hon. Viscount Tredegar oedd y Llywydd a Major-General Sir Ivor Herbert oedd Cadeirydd y Pwyllgor Gweithiol (fel y gelwid yr *Executive Committee*). Cadeirydd y Pwyllgor Llenyddol oedd Col. J. A. Bradney a'r Right Hon. Lady Llangattock oedd Cadeirydd y Pwyllgor Celf.

Ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif yr oedd yr Eisteddfod Genedlaethol wedi Seisnigo'n arw. Nid yn unig yr oedd swyddogion y 'steddfod yn ddi-Gymraeg ond uniaith Saesneg yw'r erthygl yn y Rhestr Testynau [sic] i gyfarch yr eisteddfodwyr i'r fro, a hynny gan Ysgrifennydd Pwyllgor yr Orsedd. Mae'r erthygl yn rhamantu "*these fair domains of Siluria ... with the Usk's melodious chant of sweet content not far away.*"

Honnai'r awdur fod y Celtiaid a'r Eingl-Sacsoniaid mewn "*perfect harmony*" ar y pwyllgorau. Mae e hefyd yn atgoffa'r eisteddfodwr o gyfraniad Gwenynen Gwent, Carnhuanawc ac Eiddil Ivor i Gymreigyddion Y Fenni. "*Who was it that rocked the cradle of Welsh Nationalism when it was weak and helpless,*" gofynna, gan ateb ei gwestiwn ei hun - "*It was Lady Llanover, of immortal memory with her quenchless heroism!*"

Un o'r pethau yr ydw i'n bersonol yn edrych ymlaen ato yn Y Fenni eleni yw perfformiad o 'Gwenynen Gwent – ddy miwsical' gan Gwmni Drama Cwm Ni. Rwy'n edrych ymlaen hefyd at gwmni y tri brawd o Barncast, Jim a John ac Aled, yn y Babell Lân pan fyddwn ni'n ystyried 'Y busnes adrodd 'ma'. Yn wir, mae 'na lawer iawn o bethau dwi'n edrych ymlaen atyn nhw ddechrau Awst. Mae Frank Olding, Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith, a'i dîm bychan o wirfoddolwyr lleol yn haeddu ein cefnogaeth.

Fe fydd croeso i bawb o bob iaith a chenedl ar y maes. A hwnnw'n groeso Cymraeg. Fe gofiwn ni gyda balchder mai yng Nghaerffili 1950 y daeth 'y rheol Gymraeg' i rym. A dyna, yn anad unpeth, yr hyn a gryfhaodd ac a Gymreigiodd yr Eisteddfod Genedlaethol.



Fy Mlog o Dde America (Rhan 4)

gan Gareth Williams

Wrth deithio ar Fflat Huw Puw rownd yr Horn at y Wladfa am rhyw dridiau, penderfynais mai da o beth fyddai i'm cyd-deithwyr gael rhywfaint o baratoad ar gyfer y bywyd yn y Wladfa. Roedden nhw wedi cael digon ar weld morfilod a morloi, dybiwn i. Cynhaliais ddosbarth Cymraeg, ac er mawr syndod daeth rhyw ddeg ar hugain i fanteisio ar gyfle i ddysgu iaith y nefoedd. Stwff eitha sylfaenol ac ymarfer sut i brynu paned o de yn un o'r tai te niferus sydd yn Gaiman oedd fy narpariaeth ar eu cyfer.

Dim ond rhyw wyth awr oedd ganddon ni i dicio bocsys y Wladfa Gymreig cyn gadael. Roeddwn i felly yn eithaf brwd i siarad Cymraeg ag unrhywun. Holais fenyw oedd yn ein hebrwng ar fws ar hyd y cei ym Mhorth Madryn. 'Wyt ti'n siarad Cymraeg?' medde fi. Cefais 'Hy!' eithaf pendant yn ateb. Digon tebyg oedd yr adwaith wrth holi'r gyrrwyr taci. Deallais yn eithaf buan mai prin iawn oedd ymwybyddiaeth y bobl leol o dras Gymreig, er y gofgolofn, y baneri amlwg ar y prom ac enwau'r strydoedd. Cafodd un grŵp o deithwyr oedd am fynd i Gaiman eu siomi.

Digwyddodd un sôn rhywbeth am 'Wales' wrth un gyrrwr taci a cawsant eu hebrwng i benrhyn lle gallent weld morfilod. Roedd y cyfwng iaith braidd yn llydan a doedden nhw ddim yn hapus. Darganfuon ni Sergio a'n chwipiodd ni mewn byr dro rownd olion ac atgofion carfan Michael D Jones a laniodd ar y Mimosa yn y lle ym 1865.




*Y gofeb i'r 151 o arloeswyr
cynnar a rhestr o'u
henwau, cofeb i lwyth y
Tehuelche a'u helpodd a'r
ogofau lle cawson nhw
loches*



Wedyn ymlaen fel stêm i Trelew a Gaiman fel y mewnfudwyr ar ffordd oedd yn syth fel saeth dros dir sych ac anial. Roedden ni'n lwcus bod car ganddon ni. Taith o ryw awr.

Rhaid i bob ymwelydd gwerth ei halen fynd i'r ganolfan dwristiaeth ble bynnag yr aiff a dyna wnaethon ni yn Gaiman, sy'n ganolbwynt i'r gymdeithas Gymraeg. Siawns bod rhywun yma'n siarad ein hiaith? 'Chi'n siarad Cymraeg?' holais i 'Ydw', meddai rhywun a chamodd gwr ifanc ataf. Bobol dyna i chi wefr! Anodd oedd meddwl mod i wyth mil o filltiroedd o gartref. Yn fwy na hynny doedd hwn ddim o dras Cymreig ac wedi dysgu'r iaith oherwydd ei waith. Mae gobaith i'r Wladfa!



Tu allan roedd twnel sydd bellach yn amgueddfa drawiadol iawn a chyflwyniadau mewn sawl iaith. Dwy ffaith a'm tarodd i yno: yn gyntaf bod y twnel ar gyfer trên i gario gwenith wedi ei gwblhau ym 1881, 17 mlynedd wedi i'r Cymry lanio a bod agwedd hynod broffesiynol at y diwydiant twristiaeth erbyn hyn. Hei lwc iddyn nhw!



Mae cael te mewn tŷ te yn orfodol, i roi tic mewn boc, ac os ewch chi, peidiwch a bwyta cyn mynd. Cafodd gyrrwr ein tacsï dorllwyth o fara brith a theisennau i fynd adref gydag ef wedi'r te gawson ni yn Plas y Bryn ar stryd Michael D. Jones yn y Gaiman wedi i ni fethu a gorffen y pryd. Tra yno cawsom gyfle i siarad â Luned ac Anna, y ddwy yn hoelion wyth y gymdeithas Gymraeg.

Mae eu hiaith yn goeth fel petai o rywle yng Nghanolbarth Cymru gyda thinc Sbaeneg ynddi. Roedd Anna yn gwybod mwy am fy nhipyn nofelau i na fi! Ces wybod ganddi hi fod fy opws diwetha ar werth. Gwefr arall! Roedd nifer o bobl o Gymru nad oedd yn rhan o garfan y fordaith yno hefyd. Mae'r ddolen gyswllt â'r hen wlad yn parhau ac yn cryfhau yn y blynyddoedd diwethaf yn ôl beth welon ni ac mae tipyn o 'feilej' mewn pedlo hen werthodd Cymreig i'r byd.

Rhaid oedd mynd. Chwipio eto heibio i'r : camlesi dyfrio a adeiladodd y Cymry, tic, capel Cymraeg, tic, y bwthyn cyntaf, tic. Llai o dic oedd pasio barrios y tlodion ar gyrion Trelew ar y ffordd yn ôl i'r llong. Roedd wedi bod yn brofiad bythgofiadwy. Ewch!





Roedd y daith yn ôl trwy Brazil at y cefnfor wedyn ond roedd y ticiau mawr wedi eu gwneud. Fe addawais i beidio a'ch diflasu chi ormod yn rhygnu ymlaen am fy ngwyliau. Diolch am ddod gyda fi. Gobeithio na chawsoch chi eich siomi. Ches i ddim.



Posau'r Plant gan Mary Jones

Mae NAW gwahaniaeth rhwng y ddau lun. Allwch chi ddod o hyd iddyn nhw?




Yn y CHWILAIR mae 12 gair am lan y môr. Allwch chi ddod o hyd iddyn nhw?



tywod
twel
dŵr
môr
bwced
castell
haul
hufen iâ
cwch
picnic
rhaw
goleudy

Dangoswch y llwybr i'r hufen iâ



Nawr trowch i Dudalen y Dysgwyr i weld yr atebion

Priodas Hapus!



Ar ddydd braf o fis Mehefin, priodwyd Gruffydd Parsons, mab ieuengaf Nia a Richard Parsons, o Gaerffili â Chloe Cooke o Coldharbour, ger Dorking, Swydd Surrey. Cynhaliwyd y gwasanaeth yn Eglwys Crist, Coldharbour a'r neithior mewn pabell enfawr ysblennydd ar y cae criced nid nepell o'r pentref.

Roedd yn achlysur dedwydd gyda'r Cymry a'r Saeson yn cydbblethu'n llawen. Rhys, brawd Gruff oedd y gwas priodas. Arweiniwyd y gwasanaeth gan

y Parchgn Tony Berry a Denzil John. Mae Gruff yn gweithio fel prif ffisiotherapydd i glwb rygbi Albanwyr Llundain, ac mae Chloe yn swyddog personél i un o gwmnïau arian Llundain. Dymunwn yn dda iddynt i'r dyfodol.

Cwmni Cwm Ni

Llwyddodd ein cwmni drama Cymraeg ennill ei ffordd drwodd i rowndiau terfynol y gystadleuaeth drama un act yn y Genedlaethol eleni. Diolch i'r nifer dda a ddaeth i'n gweld yn y rhagbrawf yn safle'r Gwyndy, Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, nos Wener, 20fed o Fai.

Dewch nawr i gefnogi criw Caerffili pan fyddwn yn perfformio yn Y Fenni, yn **Theatr y Maes am 12 o'r gloch, dydd Mawrth, yr 2ail o Awst.**



Os na chawsoch gyfle hyd yn hyn i weld y gomedi newydd, "Gwenynen Gwent – Ddy Miwsical", bydd Cwmni Cwm Ni yn perfformio yn Y Fenni ac yn Radur cyn mynd ymlaen i'r Genedlaethol. Mae'r manylion i'w gweld gyda'r Hysbysebion tua diwedd y papur.



Criced yr Urdd

Diolch i bawb ddaeth i gymryd rhan yn y gystadleuaeth criced i flwyddyn 4 yn Nhrecelyn ddydd Lun 13eg o Fehefin. Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol:

1af: Ysgol Gymraeg Caerffili

Ail: Ysgol Gymraeg Trelyn

3ydd: Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon

HEDD WYN gan Josie Bissex



Cafodd Ellis Humphrey Evans ei eni ar y trydydd ar ddeg o Ionawr 1887, yn Nhŷ Penlan, Trawsfynydd, Meirionydd.

Fe oedd yr hynaf o un deg un o blant, eu rhieni oedd Evan a Mary Evans. Yn y gwanwyn 1887 symudodd y teulu i fferm 'Yr Ysgwrn'. Gadawodd Ellis yr ysgol pan oedd yn bedwar ar ddeg a gweithiodd fel bugail. Ers iddo fod yn ifanc roedd e'n fardd talentog. Cymerodd ran mewn nifer o eisteddfodau ac enillodd y gadair ym Mhenbedw yn 1917.

Yn 1910 cymerodd yr enw barddol Hedd Wyn (Blessed Peace).

Roedd Hedd Wyn yn caru barddoniaeth am ramant a natur ac yn 1913 enillodd e y gadair ym Mhwlheli a Llanuwchllyn. Ym 1915, enillodd hefyd ym Mhontardawe ac yn yr un flwyddyn ysgrifennodd e 'Yr Eryri' ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol.

Roedd y Rhyfel Byd Mawr wedi dechrau yn 1914 ac roedd y Prif Weinidog, David Lloyd George yn awyddus i berswadio dynion ifanc i ymuno â'r fyddin. Nid oedd Hedd Wyn eisiau ei frawd ifanc Robert i ymuno â'r fyddin, felly ymunodd e yn ei le.

Ar ôl hyfforddiant, daeth Hedd Wyn gartref am bythefnos. Yn ystod y cyfnod yma, ysgrifennodd 'Yr Arwr' Yn anffodus roedd e'n hwyr yn mynd yn ôl at ei uned a chafodd ei garcharu. Yn anffodus, gadawodd ei gerdd gartref felly roedd yn rhaid iddo ei hysgrifennu eto. Felly mae dau gopi o'r un gerdd, un yn Aberystwyth ac un ym Mangor.

Ymunodd Hedd Wyn â'i uned 'Y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig' ac wedyn anfonodd gopi o'r gerdd 'Yr Arwr', o dan y ffugenw 'Fleur-de-lis', i'r Eisteddfod Genedlaethol ym Mhenbedw. Yn anffodus, dim ond pedair wythnos ar ôl cyrraedd Gwlad Belg cafodd ei saethu yn ei stumog. Bu farw am un ar ddeg o'r gloch ar yr unfed ar ddeg ar hugain o Orffennaf 1917. Ym mis Medi 1917 cyhoeddwyd bod y bardd a enillodd y gadair wedi marw. Felly gorchuddiwyd y gadair mewn lliain du ac ers hynny mae y seremoni wedi cael ei galw 'Eisteddfod y Gadair Ddu'. Dywedir mai 'Yr Arwr' oedd gwaith pwysicaf Hedd Wyn. Mae'r Gadair Farddol yn parhau yn 'Yr Ysgwrn' ac i'w gweld diolch i'w nai Gerald Williams. Mae ffermdy 'Yr Ysgwrn' yn cael ei gadw er cof am Hedd Wyn. Rhoddodd Parc Cenedlaethol Eryri £150,000 i gadw 'Yr Ysgwrn' fel amgueddfa. Dechreuodd Gerald Williams ymgyrch i godi arian i adeiladu cofeb am filwyr o Gymru laddwyd yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Dadorchuddiodd y Prif Weinidog Carwyn Jones y gofeb yn Flanders; mae e'n dangos draig o Gymru a gynlluniwyd gan arlunydd o Gymru. Cafodd ei gwneud yng Nghymru gan ddefnyddio cerrig o Bontypridd.

Yn 2009 ysgrifennodd Phil Carradine lyfr y 'Gadair Ddu' am fywyd Hedd Wyn ac enillodd y ffilm Hedd Wyn wobrau gan gynnwys 'y Ddrama Orau' yn y Bafta yn Gymraeg, a hefyd yn y categori y ffilm 'Orau mewn Iaith Dramor'.


Dyfarnwyd MBE i Gerald Williams am ei gyfraniad i dreftadaeth beirdd. Mae cerflun efydd o Hedd Wyn wedi'i wisgo fel bugail yng nghanol pentref Trawsfynydd.

Yr Arwr

Ei aberth nid â heibio
Ei wyneb annwyl nid â'n ango
Er i'r Almaen ystaenio
Ei dwrn dur yn ei waed o.

Colofn Dafydd Islwyn

Ym mis Medi 1964 y dechreuais fy ngyrfa fel athro ysgol gynradd yn Nhrelewis yn yr hen Sir Forgannwg . Fis ynghynt, yn y Genedlaethol yn Abertawe, enillwyd y Goron gan Rhydwen Williams, Abertawe, am ei bryddest adnabyddus “Y Ffynhonnau”. Canodd bryddest yn fwrlwm o farddoniaeth am Gwm Rhondda, cwm ei febyd. Ganwyd ef yn Y Pentre’ yn 1916. Ychydig a feddyliais wrth wyllo’r seremoni ar y teledu yn fy nghartref yn Sir Fôn y baswn o fewn ychydig wythnosau yn dod wyneb yn wyneb â’r Prifardd!



Gweinidog gyda’r Bedyddwyr ar y pryd yn Nhreharris, pentre’ ar draws y cwm i Drelewis, oedd Y Parchedig Alun Davies ac roedd ei wraig yn athrawes. Gan fod un o athrawesau Ysgol Trelewis wedi ei tharo yn wael daeth Mrs Davies i lenwi’r swydd. Un prynhawn, yn ystod hanner tymor cynta’ tymor yr Hydref 1964, pwy ddaeth i’w chyfarfod ond Rhydwen, cyfaill i’r teulu. O ganlyniad cefais ei gyfarfod tu allan i’r ysgol!

O fewn rhyw ddwy neu dair blynedd roedd Rhydwen wedi symud o Abertawe a dod i fyw yn Ystrad Mynach. Bu iddo ymgartrefu yno am nifer o flynyddoedd cyn symud i fyw i ardal Aberdâr. Bu’n byw yno hyd ei farwolaeth ym mis Awst 1997. Dros y cyfnod dan sylw deuthum yn gyfeillgar â Rhydwen a chael ambell i seiat lenyddol yn ei gwmni.

Bob tro y clywaf yr enw Rhydwen daw tri pheth yn syth i’r co’. Cyfarfod â Phrifardd Aberpennar 1946 ac Abertawe 1964 ar y lôn rhwng dau adeilad yr hen ysgol yn Nhrelewis ac yng nghysgod Capel Trinitî (Bedyddwyr) y pentre’. Tua’r un cyfnod cael fy nghynghori gan ewythr-yng-nghyfraith i mi i ddarllen cerdd goffa Rhydwen i “Kitch”, James Kitchener Davies (1902 - 1952). Roedd ef yn arwr i fy ewythr ac i Rhydwen. Cerdd naw pennill, pedair llinell fer yr un. Dyma’r trydydd pennill:

O felly ceraist
A’n dysgu ni
I garu’n wirion
’Run peth â thi.

Llinell o deyrnged Kate Roberts yn Y Faner sbardunodd y gerdd, “Heddiw, y mae Cymru yn dlawd iawn wedi colli un a’i carodd yn rhy dda.”

Mae “Y Ffynhonnau” wedi ei chyflwyno i ddisgyblion Ysgol Gymraeg yr Ynys-wen, Treorci, i gofio am Dri o’u Dewrion. Un ohonynt oedd James Kitchener Davies, Athro, Gwleidydd, Llenor.

“..... Ymlaen Gelliwastad a Thyntyla, Llwynypia a Threalaw
A’r Brithweunydd (Bu beirdd o Gymru yma)
Oes ’na fardd yn Aeron heno?

Bu farw’n ifanc.
Dros Gymru medd rhai.
Gwallt du, llygaid mawr a gwên
Trin gardd fel trin geiriau
Cenedlaetholwr, ond – bonheddwr i’r bôn!
Dramodydd, bardd, Calfin a phechadur bodlon.
Llais siŵr ar gyfer corn-siarad.
Bocs-sebon a phulpud hefyd.
Trowser-rib a phib-glai,
Theomemphus â pheint o gwrw.

Pan roddwyd hwn i orwedd ym mhrid Cwm Rhondda un prynhawn, cafodd y Llethr – ddu haen gyfoethocach na’r glo”. Tra bydd sôn am Kitch a’i weledigaeth Gymreig bydd dyfynnu llinellau Rhydwen amdano.

Sychder Anweledig Lesotho



O edrych ar luniau o Lesotho hawdd cael eich twyllo nad oes gan y wlad unrhyw broblemau. Ond, mae'r tirwedd sy'n wyrdd ar ôl cawodydd diweddar yn cuddio effaith misoedd o brinder glaw a'r sychder gwaethaf mewn deugain mlynedd. Darlledwyd rhaglen ar S4C o dan ofal gofalus y darlledwr Gari Owen, yn olrhain effaith y sychder ar bobl Lesotho.

Cafodd Garry Owen a'i griw ffilmio eu syfrdanu gydag effaith y sychder ar bobl Lesotho. Fe ddywedodd,

'Fe wnes i ymweld â Lesotho am y tro cyntaf yn 2005 i adrodd ar yr argyfwng HIV/Aids ar ran BBC Cymru. Mae'r wlad yn wynebu argyfwng arall erbyn hyn...sychder. Siaradais â phobl sy'n ei

chael hi'n anodd ac yn wynebu newyn a diffyg maeth. Mae Lesotho ar drothwy'r gaeaf a bydd y dymheredd yn disgyn. Mae'n amser pryderus i'r wlad fach, fynyddig hon sydd wedi ei gefeillio â Chymru.'

Gyda 80% o boblogaeth y wlad yn ddibynnol ar amaeth mae'r prinder dŵr eleni wedi difetha'r cnydau gan arwain at y cynhaeaf gwaethaf mewn blyneddau. Yn ôl yr ystadegau mae 1 o bob 3 yn dioddef o brinder bwyd ac yn poeni sut y byddant yn goroesi'r gaeaf sydd o'u blaenau. Mae'r prinder bwyd a dŵr wedi arwain at gynydd mewn trais gydag un pentref yn dwyn wrth y llall a chynnydd sylweddol ym mhrisiau bwyd. Mae pris sach o 'maize' (india-corn), un o fwydydd craidd y wlad, wedi treblu ac erbyn hyn allan o gyrraedd canran sylweddol o'r boblogaeth. Mae nifer o blant yn ddibynnol ar y prydau bwyd sydd ar gael yn yr Ysgol- uwd dyfrllyd i frecwast a 'pap' a llysiau, naill ai ffa, bresych neu spigoglys, i ginio. Ni fyddant yn cael unrhyw fwyd gartref oherwydd effaith y sychder. Mae nifer wedi gorfod lladd eu hanifeiliaid gan na allant eu bwydo- yn ôl y dywediad- *'ei cheg yw tynged y fuwch'*.

Mae Dolen Cymru Lesotho, a sefydlwyd yn ôl yn 1985, y gefeillio cyntaf rhwng dwy wlad, yn ymdrechu i godi arian i gynorthwyo pobl Lesotho. Mae Dolen Cymru wedi bod yn cefnogi gweithgareddau datblygu yn Lesotho ers dros 30 mlynedd gan ganolbwyntio ar addysg, iechyd a chysylltiadau cymunedol. Ar hyn o bryd mae 5 o athrawon Cymru yn gweithio yn rhanbarth Thaba Tseka gan gynorthwyo gyda gwella llythrennedd. Yn ogystal bu gweithwraig iechyd yn gweithio yn yr un ardal ar hylendid a phwysigrwydd golchi dwylo i osgoi clefydau.

Mae Dolen Cymru mewn partneriaeth gyda'r elusen 'Send a Cow' (www.sendacow.org/lesotho) yn codi arian i brynu hadau a chreu gerddi twll y clo. Rydyn ni hefyd yn lansio cynllun 'Bwydo Ysgol' drwy fuddsoddi mewn gerddi ysgolion.

Os am gefnogi gwaith Dolen Cymru Lesotho a chyfrannu at yr Apêl Sychder ewch i'r gwefan- <http://www.dolencymru.org/sychder> neu drwy ffonio ein swyddfa yng Nghaerdydd ar 029 2049 7390 | swyddfa@dolencymru.org.



Cyllid ar gael i Fyfyrrwyr Astudio Graddau Meistr

Bydd modd i fyfyrwyr ymgeisio am Ysgoloriaethau Meistr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol o £3,000 cyn 11 Gorffennaf 2016.

Bwriad Ysgoloriaethau Meistr y Coleg Cymraeg yw cynnig cefnogaeth ariannol i fyfyrwyr sy'n dymuno astudio cwrs meistr yn rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg mewn prifysgol yng Nghymru. Mae croeso i fyfyrwyr sy'n bwriadu astudio cwrs sydd ag o leiaf 60 credyd wedi ei addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a chyflwyno traethodau hir yn Gymraeg gyflwyno cais.

Mae o leiaf 10 ysgoloriaeth ar gael ac mae dros 40 o gyrsiau gradd yn gymwys ar gyfer yr ysgoloriaeth ar draws nifer o sefydliadau Cymru.

Yn eu plith mae cyrsiau ym meysydd Y Gyfraith, Busnes, Celf, Addysg Cerddoriaeth a'r Diwydiannau Creadigol.

Un wnaeth fanteisio ar Ysgoloriaeth Meistr y Coleg Cymraeg y llynedd oedd Manon Elwyn Hughes, dderbyniodd gyllid i astudio Cymraeg ym Mhrifysgol Bangor:

“Roedd gwybod fod gen i gyllid gan y Coleg Cymraeg y tu cefn i mi yn gysur mawr ac mae'r arian wedi fy ngalluogi i brynu cyfarpar angenrheidiol yn ogystal ag ymweld â sefydliadau eraill er mwyn gwneud gwaith ymchwil pellach. Mae'r broses ymgeisio yn syml felly ewch amdani!”

Mae pecyn ymgeisio llawn ar wefan y Coleg Cymraeg – <http://www.colegcymraeg.ac.uk/ysgoloriaethau> neu gellir cael rhagor o wybodaeth trwy e-bostio gwybodaeth@colegcymraeg.ac.uk neu ffonio 01267 610400.

Trwy gydweithio â phrifysgolion Cymru, mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn sicrhau ac yn datblygu rhagor o gyfleoedd astudio cyfrwng Cymraeg i fyfyrwyr Cymru. Mae'n nodi darlithwyr cyfrwng Cymraeg ac yn cynnig ysgoloriaethau sy'n galluogi i fyfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig ddilyn cyrsiau addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cyhoeddiadau'r Capeli Cymraeg Misoedd Gorffennaf ac Awst Tonyfelin, Heol Bedwas

Gorffennaf 3	10.30 Oedfa Undeb y Bedyddwyr Pregethir gan y Parch Owain Llyr Evans	6.00 Dim oedfa – Cymanfa ym Merthyr
Gorffennaf 10	10.30 Y Parch Hywel Richards	6.00 Y Parch Milton Jenkins
Gorffennaf 17	10.30 Mr Mansel Jones	6.00 Mr Mansel Jones
Gorffennaf 24	10.30 Y Parch. Milton Jenkins	6.00 Y Parch Milton Jenkins
Gorffennaf 31	Oedfa'r Eisteddfod Genedlaethol	

Bethel Ffordd Nantgarw

Gorffennaf 3	10.30. Tonyfelin Parch.. Owain Llyr
Gorffennaf 10	10.30. Sul y Cyfundeb yn Ysgol Penarth
Gorffennaf 17	10.30. a 6 00. Tonyfelin Parchg. Mansel Jones
Gorffennaf 24	10.30 Bethel (gweinidog i'w gadarnhau)
Gorffennaf 31	10.30 Bethel Parch.. Lona Roberts.

Yn ystod mis Awst fe fydd Tonyfelin a Bethel yn cydaddoli.

Awst 7	Tonyfelin.	10.30 a 6.00	Parch. Dafydd Henri Edwards.
Awst 14	Bethel.	10.30	(gweinidog i'w gadarnhau) 6.00. Gordon Maslen
Awst 21	Tonyfelin	10.30 a 6.00	Gareth Hughes
Awst 28	Bethel	10.30	Parch. Peter Dewi Richards 6.00 Ann O'Neill

Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Dechreuodd fy niddordeb mewn barddoniaeth gwyddoniaeth amser maith yn ôl pan ddarllenais am Erasmus Darwin (1731-1802), tadcu yr enwog Charles. Erasmus yn ddi-os oedd athrylith y teulu, yn feddyg, yn ddyfeisiwr, yn fardd a hyn oll yn ychwanegol at ei arbenigedd ar blanhigion. Bu'n enwog yn ei ddydd am greu cannoedd o gwpledi odlog yn cyflwyno nodweddion planhigion; ceir y rhain yn ei lyfr gorchestol, The Botanic Garden. Ar gefn ei ddychymyg byw mentrodd ddarogan dyfodol technoleg,

Soon shall thy arm, Unconquered Steam, afar
Drag the slow barge or drive the rapid car,
Or on wide-waving wings expanded bear
The flying-chariot through the fields of air!

Y cwestiwn arhosol mewn perthynas â barddoniaeth gwyddoniaeth yw a oes rhaid i fardd fod yn ffeithiol ddibynadwy a chywir? Go brin y gellir cydnabod barddoniaeth sy'n amlwg groes i wyddoniaeth gydnabyddedig. Ar y llaw arall onid swyddogaeth barddoniaeth yw procio'r dychymyg trwy ddefnyddio geiriau sy'n amwys o un safbwynt a bod yn awgrymog ar draul cywirdeb?

Daeth yr ystyriaethau hyn yn ôl ataf wrth ddarllen Englynion y Genedlaethol 1900-1999, trysor gan Dafydd Islwyn. Yn Eisteddfod Wrecsam a'r Cylch yn 1977 testun yr englyn oedd Taid/Nain. Enillydd y gystadleuaeth oedd Alan Llwyd gyda hwn,

Er i'r tes impio'r fesen – a'i noddi
Yn nyddiau ei heulwen,
Rhyw fin hwyr, a'i hafau'n hen
Roedd eira ar y dderwen.

Yn Barddas (Medi 1977), wrth fwrw golwg dros gynnyrch y Genedlaethol, ysgrifennodd Moses Glyn Jones, '...ni hoffaf y sôn am fesen yn impio...Egino y mae mesen ac nid impio fel pob hedyn arall sy'n cychwyn tyfu. Blagur sy'n impio.....Rydym yn euog o lacrwydd ag ystyron geiriau. Mae'n wyddonol ac yn farddonol anghywir i ddweud bod had yn impio'. Roedd Moses Glyn Jones yn fiolegydd ac yn brifardd.

Felly, gan ddilyn hen arfer, âf eleni i'r Fenni i ysgwyd fy mhen i.

Dr Neville Evans Gorffennaf 2016.



menter@caerffili.org

01443820913

Nos Lun, 11eg o Orffennaf bydd ymgynghori yn Nhŷ Penallta Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Trefn y digwyddiadau hyn yw bod y rhai sy'n cymryd rhan yn neilltuo i mewn i grwpiau i drafod y materion dan ystyriaeth. Mae Menter Iaith Caerffili yn cynorthwyo'r Cyngor er mwyn ymgynghori yn Gymraeg a bydd eu staff yn hwyluso grwpiau trafod ar y noson ar gyfer siaradwyr Cymraeg. Mae'r Fenter wedi sicrhau y cynhelir o leiaf un o'r grwpiau hyn drwy gyfrwng y Gymraeg.

I fenter fel hon lwyddo mae gofyn ar i Gymry Cymraeg gymryd rhan. Tybed felly allech chi gysylltu â'r Fenter i gynnig eich cefnogaeth?

Sgwrs yn y Bwyty

Gweinydd : Noswaith dda

Cwsmer : Noswaith dda. Bwrdd i un os gwelwch yn dda

Gweinydd : Dyma chi a dyma'r fwydlen

Cwsmer : Diolch. Oes pysgod a sglodion gyda chi?

Gweinydd : PYSGOD A SGLODION! Nag oes,
rydyn ni'n fwyty Eidalaidd *cordon bleu*!

Cwsmer : O wel! Pasta mewn saws tomato
os gwelwch yn dda, a bara garlleg.

Gweinydd : Rhywbeth i yfed?

Cwsmer : Gwin coch y tŷ, os gwelwch yn dda.

Gweinydd : Iawn. Dewis da.

Gweinydd : Dyma chi. Mwynhewch.

Cwsmer : Diolch

Gweinydd : Ydy popeth yn iawn?

Cwsmer : Popeth yn iawn! POPETH YN IAWN!!!

Na, dyw popeth ddim yn iawn. Mae'r pasta yn oer, mae'r bara garlleg fel lledr
ac mae'r gwin coch yn finegr!

Gweinydd : Mae'n ddrwg gen i. Beth hoffech chi gael i bwddin?

Cwsmer : Hoffwn i gael y bil achos dw i'n mynd i stwffio'r bil.....

mwynhewch : enjoy



lleddr : leather

Dewiswch yr ateb cywir :

- | | | | |
|-----------------------------|--------------|--------------|--------------------|
| 1. Mae'r bwyty yn | a) Indiaidd | b) Eidalaidd | c) Ffrengig |
| 2. Dewis cyntaf y cwsmer yw | a) paella | b) cawl | c) pysgod a sglods |
| 3. Mae e'n yfed | a) gwin coch | b) sudd oren | c) dŵr |
| 4. Mae'r bwyd yn | a) flasus | b) iawn | c) ofnadwy |
| 5. Mae'r cwsmer eisiau | a) bil | b) pwddin | c) arian |



Atebion Posau'r Plant



Noson Big Band!

EISTEDDFOD

£20 y person
yn cynnwys / including:
Bws + tocyn / ticket i'r
maes + tocyn i'r
cyngerdd / concert

Cil-y-coed, Mill Lane	14:50
Casnewydd, Malpas Rd	15:15
Pontypŵl, Leisure Centre	15:35
Maes yr Eisteddfod	16:00

30/7/16 am 20:00 yn Y Pafiliwn
Noson arbennig o gerddoriaeth swing gyda

- Band Mawr Rhys Taylor Big Band
- Caroline Sheen + James Williams
- Côr yr Eisteddfod Choir

Cysylltwch â / contact helen.young@coleggwent.ac.uk
01495 333710 i archebu tocyn / to order a ticket.



Canolfan Siloh

Saib@Siloh — gyda'r Salmau



BEIBL BYW

Cyfarfod defosiynol – croeso i bawb

10.30 – 11.30 ar fore Llun

4 Gorffennaf – Barnwr cwbl gyfiawn (Salm 98 a 99)

5 Medi – Fel plentyn bach (Salm 131)

Astudiaeth

Llunïaeth

Gweddi

ymholiadau@siloh.co.uk / info@siloh.co.uk / www.siloh.co.uk

01443 813617



TACSI GORSAF CAERFFILI

Cysylltwch â KEITH ar

02922 362364 neu 07914 355195

facebook.com/tacsigorsafcaerffili



Defnyddiwch Gardiau Debyd/Credyd



Caerffili

**“Gwenynen Gwent,
Ddy Miwsical”**

gan
Ben Jones



Nos Fercher, 13eg o Orffennaf
7:30 o'r gloch

£10

(Yn cynnwys llunïaeth ysgafn)

Theatr Melville,
Pen y Pound, Y Fenni, NP7 5UD

Tocynnau/Rhaglenni: Ruth Roberts 01873 853167

Pob elw at yr Eisteddfod Genedlaethol

Clonc cyn y Ddrama

Dewch am bryd neu ddiod i
ymarfer eich Cymraeg cyn
mynd i weld “Gwenynen
Gwent—Ddy Miwsical”

Prynwch eich tocynnau eich
hunain ond dewch am glonc i'r
dafarn yn gyntaf!

Y Cantreff Inn
61 Heol Aberhonddu
Y Fenni, NP7 7RA
5:30 ymlaen

helenyoung@coleggwent.ac.uk

Llyfrau'r ENFys Cyf
Vikki Alexander
E-bost-Llyfrau'enfys.cymru
Wefan/website - www.rily.co.uk
Facebook/llyfrau'enfys
07970172754
Llyfrau Cymraeg a ddwyieithog arbennig i bob oedran!



Enthusiastic Amateur Photographers
All Occasions Considered - Reasonably Priced
Gwasanaeth Cymraeg Ar Gael
Tracey 07764 750916 Eluned 07825 615349

mentercaerffili.cymru

Clwb Cerdded/Walking Club Dydd Mercher/Wednesday 10-12

CLWB CERDDED

Am raglen teithiau cerdded mis
Gorffennaf ewch i wefan Menter Iaith
Sir Caerffili neu cysylltwch â
Morgan Roberts - Swyddog Prosiect
Llais Menter Caerffili: 01443 802832

Ar y dydd 07835877612

morganroberts@mentercaerffili.cymru



Nos Iau, Gorffennaf 7fed
Taith Gerdded

Dave Hale

“Argae Cwmcarn”

7:00

Ar yr A467 o Drecelyn, ewch heibio i Gwmcarn
ac wrth y gylchfan lle mae arwydd yn cyfeirio at
Ffordd Goedwig Cwmcarn, cymerwch y ffordd
gyntaf i gyfeiriad Pontywaun. Arhoswch ar y
ffordd am tua milltir, mae pont sy'n croesi'r
gamlas - trowch i'r chwith i lawr y lôn cyn
croesi'r bont ac mae lle i barcio ar y chwith wrth y
gamlas.

Ar gyfer Cymry Cymraeg a
Dysgwyr lefelau Uwch/Hyfedredd



Clwb Llyfrau “Cwmni” Tŵr y Lyfrgell NEWYDD

Caerffili
2 o'r gloch

Gorffennaf 11eg
“Beti Bwt” gan Bet Jones

Medi 5ed

Lluch yn yr Haul” Marlyn Samuel

Croeso cynnes i Gymry Cymraeg
a dysgwyr profiadol.

Manylion:02920889827

JanPenney@aol.com

Clwb Clonc

Pob Nos Iau
17:45 – 18:45

Tŷ Rhydychen, Risga
helen.young@coleggwent.ac.uk
01495 333702



Ymweliad â Gardd Croesllanfro,
Tŷ Du NP10 9GP
Nos Fercher 20fed o Orffennaf

Cwrdd am 6.00 yn Fferm Croesllanfro.

Fel un o erddi'r Cynllun Gerddi Cenedlaethol ers
dros 20 mlynedd mae'r ardd hon wedi codi llawer
iawn o arian tuag at elusennau. Manylion pellach
i'w cael gan Gaynor trwy ffonio 01443 814079 neu
e-bost gaynor555@btinternet.com

Cofiwch nad yw'r digwyddiadau uchod yn
gyfyngedig i aelodau Merched y Wawr.



“Gwenynen Gwent, Ddy Miwsical”

gan
Ben Jones



Nos Lun, 25ain o Orffennaf
7:30 o'r gloch

£3

Ysgoldy Eglwys Crist
RADUR

Llun y Mis gan Anne Anstead

